# ELLIS, THOMAS (c. 1819 - 1856), dwyreinydd

**Enw:** Thomas Ellis
**Dyddiad geni:** c. 1819
**Dyddiad marw:** 1856
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** dwyreinydd
**Maes gweithgaredd:** Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** Bleddyn Jones Roberts

Ganwyd yn Llanfyllin, Sir Drefaldwyn, tua 1819, a chan nad oes gyfeiriad ato yng nghofrestr y plwyf, y mae'n debyg iddo gael ei fedyddio yng nghapel y Methodistiaid Calfinaidd yno. Mynychai ysgol Morris Davies, ond disgybl gwan ydoedd, ac ymunodd â'i dad fel crydd. Wedi hynny crwydrodd i Lerpwl; yno ymddiddorodd mewn ieithoedd dwyreiniol. O 1848 hyd 1850 dywedir iddo gynorthwyo Samuel Bagster i baratoi ei brif weithiau Hebraeg, gan gynnwys *Analytical Hebrew and Chaldee Lexicon*. ond gwyddom iddo hefyd grwydro yn y Dwyrain yn yr un cyfnod. O Ragfyr 1850 hyd ei farw yn Rhagfyr 1856 cyflogwyd ef ar uwchrif yn yr Amgueddfa Brydeinig i restru llawysgrifau Syrieg, ond y mae'n amheus a fu ei waith o werth arbennig, oherwydd cawn Wright's *Catalogue* yn ei anwybyddu ond yn canmol gwaith ei ragflaenydd Cureton yn dra uchel. Ar y llaw arall, cawn Layard, yn y rhagair i *Discoveries in the Ruins of Nineveh and Babylon*, 1853, yn ei gydnabod am gyfarwyddyd gwerthfawr.

## Awdur

**Y Parchedig Athro Bleddyn Jones Roberts**, (1906 - 1977)

## Ffynonellau

R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894)

Robert Williams, *Enwogion Cymru. A Biographical Dictionary of Eminent Welshmen* (1852), 89

llythyr gan J. Leveen, Dept. of Oriental Books and MSS., the British Museum, 20 Mai 1949

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734441

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu